Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 6.] MEHEFIN, 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Oddiar y Twr.

Brenin y Dychryniadau.
D. J. Davies, Ph.D.

Duw'r Diddanwch.
R. J. Jones, M.A., Aberdar.

Ar Bont Capel Cynon. Sarnicol.

Arholiad yr Ysgol Sul,
1913.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

"An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

Price 5s. nett.

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

OS AM SICRHAU COPI O

"CRWTH DYFFRYN CLETTWR"

Anfoner yn ddioed am dano at J. D. LEWIS, Swyddfa "Yr Ymofynydd," Llandyssul, yr hwn sydd wedi prynu yr oll oedd gan y Cyhoeddwr. Prisiau—Paper Covers, 1/6 ; Cloth, 2/6 ; Half Bound, 3/-. Postage, 2d.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith ; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad . . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR ✵ YMOFYNYDD

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN 1913. [CYF. XII. RHIF 6.

ODDIAR Y TWR.

GOFYNA gryn dipyn o ymdrech ar du'r meddwl i fyned yn ol ddau cant a haner o flynyddau, a sylweddoli beth gymerodd le yr adeg hono. Ond llawer hawddach yw gwneud hyn na myned yn mlaen

DDAU CANT A HANER I'R DYFODOL.

I'n galluogi i sylweddoli beth gymerodd le ryw adeg yn y gorphenol, y mae genym hanes i'n cynorthwyo. Ond y mae y dyfodol wedi ei guddio rhagom gan len mor dywell fel nad oes neb eto wedi llwyddo i dreiddio trwyddi. Ond er hyn, y mae ambell i weledydd anturiaethus yn troi ei olygon i'r dyfodol weithiau, a thrwy gynorthwy'r dychymyg, ac yn ngoleu arwyddion amser, dyry i ni ddarlun o'r hyn dybia efe fydd ryw adeg yn y dyfodol. Dyna, mi gredaf, oedd y prophwydi gynt—darllenwyr o'r dyfodol yn ngoleuni'r presenol, ac nid rhag-ddywedwyr o ddigwyddiadau'r dyfodol yn rhinwedd rhyw allu goruwchnaturiol yr oeddent wedi eu donio ag ef. Nid yw'r dosbarth hwn wedi darfod o'r tir eto. Ac ar ol ei anerchiad fel Llywydd yr Undeb Cynulleidfaol Seisnig y dydd o'r blaen, rhaid rhestru'r

PARCH. J. MORGAN GIBBON

fel aelod o'r dosbarth. Anturiodd droi ei olygon i'r dyfodol, er mai yn wylaidd ac ofnus y gwnaeth hyny. Cymhellwyd ef, yn debygol, i droi ei olygon i'r dyfodol gan yr anerchiad llywyddol o'r un gadair y flwyddyn ddiweddaf. Y flwyddyn ddiweddaf buwyd yn dathlu "Troad Allan y Ddwy Fil" ddau cant a haner o flynyddau yn ol—yn 1662. Dyna wir ddechreuad Ymneillduaeth. A naturiol oedd i'r anerchiad lywyddol y flwyddyn ddiweddaf fod yn adolygiad o'r diwygiad hwnw, ac o'r hyn ddaeth o hono. Beth wnawd yn ystod y cyfnod rhwng 1662 a 1912? Un ateb i hyn yw—fod ugain miliwn

o gymunwyr yn yr Eglwysi Ymneillduol heddyw. Y mae hyn oll wedi tarddu o'r wreichionen fechan, wàn, gyneuwyd yr adeg uchod.

Y Mae Hyn yn Gynydd Rhyfeddol

mewn mor lleied o amser. Ond perthyn i'r mudiad Ymneillduol agweddau mwy pwysig na'r un rhifyddol ; a chyn y gellir iawn-bwyso'r hyn sydd wedi tarddu o wreichionen wan 1662, rhaid cymeryd yr agweddau hyn i ystyriaeth ; yn enwedig un o honynt, sef, y lle amlwg y mae'r Eglwysi Annibynol wedi lanw yn ngwahanol fudiadau gwleidyddol a chymdeithasol y cyfnod hwn. Ond yr wyf yn colli golwg ar y pwnc y cychwynais i ysgrifenu arno. Â'r dyfodol y mae a fynwyf yn awr. Y mae yn bwysig i astudio'r gorphenol, a dysgu ei wersi lluosog i ni. Dyna i gyd fedrwn ni wneud â'r gorphenol. Yr hyn a wnawd a wnawd : erys y gorphenol, gyda'i lwyddiantau a'i fethiantau, yn ddigyfnewid. Ond y mae genym ni, a chan y cenedlaethau ddeuant ar ein hol ni, rywbeth i wneud i ddylunio'r dyfodol. Beth am Ymneillduaeth yn 2163—ddau cant a haner o flynyddau yn y dyfodol? "Dyna dair Eglwys fawr," medd Mr. Gibbon, "yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Anglicanaidd, a'r Eglwys Rydd (neu Ymneillduol): beth fydd wedi dod o honynt erbyn 2163?" Nis gellir ateb y gofyniad hwn, mae'n wir; mae hwn yn gyfnod rhy hir i ni i ffurfio un dirnadaeth beth fydd ar ei derfyn ; ond gallwn sylwi i ba gyfeiriad y mae gogwydd pethau yn ein hamser ni ; a gallwn, hefyd, dynu darlun o'r hyn, yn ol ein barn ni, ddylai fod yr adeg bell hono. Beth, ynte, am ogwydd presenol y byd crefyddol?

Deil yr Eglwys Gatholig

i lynu yn dŷn wrth y syniad o anffaeledigrwydd un person, y Pab, er gwaethaf y ffaith fod rhai ysprydoedd dewr, megis Loisy a Tyrrell, wedi gwneud eu goreu i'w rhyddhau o'r llyfethair rhwystrol hwn. Bu'r ddau hyn farw heb adael neb ar eu hol teilwng i wisgo eu mantelli. Ond fel y mae ychydig lefain yn lefeinio'r holl does, nid anmhosibl ydyw na ddygodd y ddau hyn yspryd newydd i fewn i'r Eglwys Gatholig a all esgor ar chwyldroad rhyfeddol ynddi cyn y gwawria'r flwyddyn 2163. Yn bresenol, fodd bynag, anffafriol yw'r arwyddion o sylweddoliad buan y gobaith hwn.

Beth am yr Eglwys Anglicanaidd?

Arweinia'r gofyniad hwn i amryw ofyniadau ereill. Ai posibl y bydd yr Eglwys Anglicanaidd (ein Heglwys Sefydledig ni) yn mhell cyn yr adeg uchod, wedi ymdaflu yn grynswth i fynwes yr hen fam Rufeinig? Ai posibl y bydd, trwy drugaredd rhywun neu rywrai heb ei phleidwyr ei hun, wedi eu rhyddhau o bob cysylltiad â'r wladwriaeth? Amlwg yw fod yr Eglwys Sefydledig, ar hyn o bryd, yn gryf yn ei chariad at y Babaeth—gelyn anghymodlawn pob cynydd a rhyddid

er y daeth i feddiant o'i gallu goresgynol presenol y tro cyntaf. Mewn perthynas i'r ail o'r gofyniadau uchod, ymddengys fel pe ein bod ni yn Nghymru ar bwys yr adeg pan fydd yr Eglwys Sefydledig wedi peidio bod yn Sefydledig. Ond am Lloegr—wel, druan o Lloegr!

Beth am yr Egwysi Rhyddion?

Nid *rhyddion* yn yr ystyr y deallwn ni y gair, sylwer, ond *rhyddion* o bob cysylltiad â'r wladwriaeth. Gofyniadau Mr. Gibbon mewn perthynas i'r Eglwysi Rhyddion neu Ymneillduaeth yw y rhai hyn:—A fyddant, yn mhen dau cant a haner o flynyddau eto, wedi ymiachau o'i hunigoliaeth afiach ac wedi meistroli'r ogwydd at ymraniadau gwanhaol? Neu, a fydd holl sectau ac eglwysi y presenol wedi eu llyncu i fyny gan ryw fudiad newydd a'u huna ac a ragora arnynt? Meddienir Mr. Gibbon, fel y mae yn amlwg oddiwrth ei anerchiad rhagorol, gan obaith cryf. "Ond

Rhaid i'r Ymneillduaeth sydd i Fuddugoliaethu,"

meddai, "fod yn ffyddlon i'w hegwyddorion, ac yn frwdfrydig drostynt." Ie, dyna'r amod. Y mae Ymneillduaeth wedi gwneud gwaith ardderchog. Diolch am dano. Ond wrth daflu golwg dros ei hanes am y ddwy ganrif a haner ddiweddaf, awgrymir amryw ofyniadau. A ydyw Ymneillduaeth wedi dilyn ei hegwyddorion bob amser ac yn mhob cysylltiad i'r man eithaf? Gan yr oll o'r enwadau Ymneillduol cydnabyddir rhyddid fel un o'u hegwyddorion gwerthfawrocaf. Ond a ydynt wedi bod yn ddiwyrni o ffyddlon i yspryd yr egwyddor hon trwy holl gwrs ei hanes? Ai nid ymlyniad ystyfnig wrth iawnffyddiaeth henafol nodwedda hanes yr oll o'r enwadau—hyd yn nod hanes yr enwad Annibynol, y rhyddaf o'r oll? Ai nid rhyddid i feddwl tu fewn i gylch cyfyng credo'r enwad yw rhyddid pob un o honynt? A ydynt wedi bod yn gyfeillgar i ymchwiliadau duwinyddol? Ai nid yw cynydd mewn gwybodaeth gywirach o wir natur y Beibl wedi ei wneud ar waethaf yr oll o'r enwadau Ymneillduol? Ni roddaf yma yr atebion i'r gofyniadau hyn. Gwna'r darllenydd deallgar hyny drosto ei hun. A oes arwyddion fod yr Eglwysi hyn yn dechreu dysgu gwersi ei hanes gorphenol, fel ag i beri iddynt ymddiosg o'u hystyfnigrwydd, a meithrin yspryd mwy goddefol a chroesawgar i feddyliau rhyddfrydig? A amlygant fwy o gydymdeimlad nag a wnelai'r tadau â dynion ieuainc myfyrgar, ymchwilgar, tebyg i'r dyn ieuanc y sonia Mr. Gibbon am dano. Ateb i hyn yw'r ffaith honedig nad oes gan ddynion ieuainc o ogwydd meddyliol rhyddfrydig ond gobaith gwan am faes llafur gweinidogaethol yn mhlith yr Eglwysi Rhyddion.

Beth am Atebion Mr. Gibbon

i'w ofyniadau ei hun? Yn hyn o beth nodweddir ei anerchiad gan ochelgarwch—ie, gan ochelgarwch anisgwyliadwy. Gellid disgwyl

triniaeth fwy boddhaol oddiwrtho ef o'r yspryd ddylai feddianu'r Eglwysi Rhyddion yn yr amserau cyfnewidiol yr awn trwyddynt, ac o'r osgedd briodol iddynt i fabwysiadu at feddyliau newydd a wthir i sylw ein pobl ieuainc, ac at y bobl ieuainc a roddant groesaw i'r meddyliau hyn. Ond efallai, wedi'r cyfan, nad yw'r anerchiad presenol ond math o ragarweiniad; ac fod yr atodiad i ddilyn eto yn nes yn mlaen. Hyn mi obeithiaf fydd y ffaith.

SYLWEDYDD.

BRENIN Y DYCHRYNIADAU.

OHOLL elynion dynolryw edrychir yn gyffredin ar Angau fel y mwyaf a'r mwyaf arswydus. Mae hyn yn wir, hyd ag y gwn, am bob oes yn hanes y byd ac am bob cenedl o ddynion. Gwir fod yna eithriadau, fwy neu lai, yn mhob gwlad a chenedl, o rai ydynt yn croesawu Angau yn neu cyn ei amser, a rhai hefyd yn ceisio am dano yn wirfoddol; ond eithriadau ydynt, ac ni wna eu hymddygiad ond dwyn eiddo y gweddill o ddynolryw i sylw mwy amlwg. Canys i'r dyn cyffredin nid yw marwolaeth yn ddiameu yn ddim amgen na brenin y dychryniadau, ac yn wir gelwir ef wrth yr enw hwn yn fynych. A phaham? Oblegyd, yn ddiddadl, mae yna reswm neu resymau dros hyny, nid mympwy ddall yw yr oll. Nid yw yn anhawdd deall paham, pan gofiwn am y difrod mae Angau anamserol wedi wneyd ar y ddynoliaeth trwy yr oesau. Pan welai pobl y baban bychan diniwed, neu y bachgen, neu'r ferch ieuanc yn mlodau eu dyddiau, neu y dyn neu'r ddynes yn anterth eu nerth ac yn nghanol eu defnyddioldeb yn cael eu tori i lawr yn ddirybudd bron i ymddangosiad allanol, y fam, ac efallai'r tad hefyd yn cael eu symud gan adael nifer o rai bychain ar eu hol yn amddifaid a di-amddiffyn, nid rhyfedd eu bod wedi dod i edrych ar y gallu hwn ymddangosai iddynt hwy yn gweithredu mor annibynol o bob achos a rheswm, fel eu gelyn gwaethaf. Nid rhyfedd eu bod wedi dod i'w gyfrif fel rhywbeth i'w ofni a'i arswydo. Canys y mae marwolaeth o dan y fath amgylchiadau yn beth y dylem oll osgoi, mor bell ag y mae yn ein gallu; mae yn hollol annaturiol, yn gwbl groes, mi gredaf, i ddeddfau ein bodolaeth ac i amcan ac ewyllys y Bod mawr a'r Tad goreu. Ac y mae yn ein gallu oll, i raddau mwy neu lai, i'w osgoi o dan y fath amgylchiadau, ac y mae hefyd yn ein gallu i drosglwyddo'r gallu hwnw i'n plant i raddau helaethach nag y cawsom ni ef. Oblegyd nid rhywbeth trawsarglwyddiaethol heb un rheol na rheswm yn perthyn iddo ydyw Angau, eithr yn hytrach mae yn

ddarostyngedig i ddeddfau natur fel pobpeth arall yn llywodraeth Duw. Gwn yr arferid credu, ac y credir heddyw eto gan lawer, fod awr symudiad pob un ohonom wedi ei ragarfaethu gan dynged neu gan Dduw ei hun, ac nad oedd gan ddyn ei hunan ddim i wneyd a'r peth. Gwelir y dyb hon yn y dywediad glywn yn ddigon cyffredin am rywun sydd wedi cael adferiad o afiechyd hir neu bwl caled, "O, nid oedd ei amser wedi dod eto." Er hyny i gyd cyfaddefir yn awr gan feddygon deallus a goleuedig, a chan bawb bron ydynt wedi astudio'r mater yn ofalus nad yw marwolaeth yn eithriad i ddigwyddiadau ereill bywyd, ond ei fod yn gymaint ag un ohonynt yn cael ei reoli gan gyfreithiau Duw yn natur, ac na ddylai neb orfod ymadael a'r fuchedd hon cyn terfyn naturiol bywyd pe bae ef a'i dadau a'i deidiau o'i flaen wedi byw yn unol a rhain. Paham, ynte, meddech chwi, mae cymaint yn marw yn eu babandod, eu hieuengctyd, neu yn nghanol eu dyddiau, pan y dylent oll weled gwth o oedran? Yr ateb syml yw, am eu bod hwy neu rywrai oeddynt wedi dylanwadu mewn rhyw fodd neu gilydd ar eu bywyd, wedi tori deddfau natur mor bell ag yr ymwnant a iechyd dyn, ac fod hyn wedi dwyn ganddo y gosp anocheladwy, sef marwolaeth; canys mae pob torr cyfraith yn sicr o gael ei ganlyn yn gynar neu yn ddiweddar gan gosp nas gellir ei hosgoi; a ffrwyth pechod, fel y dywed Paul rywle, yw marwolaeth (nid yw'r pechod fawr yn llai am mai yn erbyn ein hunain y cyflawnwn ef). Pe bae dyn yn cael ei eni gyda chyfansoddiad iach a chorff a meddwl dianaf, a'i fod yn cymeryd y gofal dyladwy am danynt ac yn ufuddhau deddfau iechyd yn mhob dim mor bell ag y gall, y tebygolrwydd mawr yw, yn wir, y sicrwydd bron, ag eithrio anffodion anocheladwy, y byddai iddo fyw yn mhell tu hwnt i'r terfyn rhagosodedig i ddyn ar y ddaear yma, y sonia'r Salmydd am dano. Yn wir, dywed meddygon mwyaf goleuedig a blaenfynedol yr oes wrthym y dylai dyn o gyfansoddiad cryf, gyda gofal rhesymol a pharhaus am ei iechyd, gyrhaedd yr oedran teg o gant o leiaf, ac y bydd hyd yn oed chwech ugain yn oedran digon cyffredin yn y dyfodol. A phan gofiwn fod llawer yn awr yn byw dros eu canfed (fel y gŵyr pawb sydd yn darllen y newyddiaduron) ni ymddengys hon yn broffwydoliaeth ry eofn. Mae yn ddyledswydd bwysig, ynte, ar bob un i roi astudiaeth fanwl i ddeddfau iechyd, ac i'w cario allan mor bell ag sydd bosibl yn ei fywyd ei hun. Mor bell ag y mae a fyno a'r corph dylai ofalu ei fod yn cael bwyd pur ac iachus, digon o awyr bur ddydd a nos, a digon o ymarferiad cyfaddas. Dylai ochelyd pob ymborth amhur ac afiachus, yn enwedig pob math o ddiodydd meddwol, y rhai a niweidiant y corph ac a fyrhant oes, a phobpeth arall sydd yn niweidiol i iechyd. Dylai fod yn gymedrol ac yn ofalus yn ei holl arferion, ac yn neilltuol dylai ofalu peidio camarfer y galluoedd rhyfedd a chuddiedig hyny sydd wedi eu bwriadu i sicrhau parhad yr hil ddynol ar y ddaear—nid yn gymaint am y niwed all y camddefnydd o honynt wneyd iddo ef ei hun, ond yn fwy ac yn fwy pwysig o lawer i'w blant ar ei ol. Teilynga'r meddwl hefyd lawn cymaint a'r corph, os nad mwy, y driniaeth fwyaf ofalus. Mae yna

lawer yn porthi eu meddwl ag ymborth o'r fath natur na feddylient am un eiliad roddi i'w corph—dim gwell na'r budreddi moesol mwyaf niweidiol yn fynych. Ond cyn y gellir disgwyl i'r corph gael oes hir yn y byd yma, cyn y gellir disgwyl iddo gyrhaedd ei derfyn naturiol, rhaid i'r meddwl hefyd fod yn bur ac yn iach, canys mae dylanwad y meddwl ar y corph bron tuhwnt i fesur, yn mhell tuhwnt i'r hyn sylweddola y rhan fwyaf o honom. Ond ini, ynte, fyw mewn cydgord a natur ac a deddfau ein bodolaeth ein hunain, yn arbenig deddfau iechyd, mae gobaith cryf y bydd i pwy bynag gaiff ei eni i'r byd a chyfansoddiad iach a chorff a meddwl dianaf (a genid pawb felly gydag amser pe bae eu rhieni yn byw yn unol a deddfau natur yn mhob dim), mae gobaith cryf y byddai iddynt gael gweld y terfyn penodedig i ddyn ar y ddaear, neu beth bynag i gyrhaedd yn agos iawn ato. A phan gyrhaedda dyn yr oedran yma, nid fel gelyn ond yn hytrach fel cyfaill y bydd iddo edrych ar Angau, pan ddaw i'w ryddhau o'i "dŷ o glai." Ni fydd iddo mwyach ei ofni fel rhywbeth i'w arswydo eithr yn hytrach ei groesawu fel cyfrwng ei symudiad o fywyd îs i fywyd uwch. Gwelwn felly, ynte, fod Angau pan gymer le ar ddiwedd bywyd hir o waith ac ymdrech er lles dynolryw, yn ddigwyddiad hollol naturiol ac hollol ddisgwyliadwy; yn wir, mae yr un mor naturiol i ddyn farw o dan y fath amgylchiadau ag yw iddo gael ei eni a chynyddu mewn nerth corfforol a meddyliol. Pan ddaw'r cyfnewidiad olaf ar ol y fath fywyd edrychir yn mlaen ato nid gydag ofn a dychryn, fel y gwneir yn rhy gyffredin yn awr, ond gydag ymostyngiad tawel a dirwgnach i drefn y Brenin Mawr ar un llaw, a chyda gwên ar y wyneb a llawenydd a gorfoledd yn y galon ar y llaw arall, fel yr edrychir yn mlaen at ymweliad cyfaill mynwesol. Canys nid yw Angau mewn gwirionedd pan ddaw yn ei amser penodedig, ond cyfaill dynolryw, un o'i chyfeillion goreu ac nid ei gelyn gwaethaf, fel y tybid trwy yr oesau ac y gwneir yn rhy gyffredin o hyd. Brenin y dychryniadau y gelwir ef yn aml, ac yn ddiameu dyna yw pan ddaw i gwrdd dyn yn moreu oes neu yn anterth ei nerth, neu hyd yn oed pan fo cysgodau'r hwyr yn dechreu crynhoi am dano; ond pan ohirir ei ddyfodiad hyd at derfyn naturiol bywyd dyn ar y ddaear yma, yna mae mor naturiol ac mor ddymunol ag yw cwsg esmwyth i'r gweithiwr lluddedig ar ol diwrnod hir a chaled o waith. Pan fo dyn wedi cyrhaedd terfyn penodedig ei fywyd mae mor naturiol iddo farw ag yw i'r afal syrthio oddiar y llwyn yn grîn aeddfed; ni ddaw hyny yn annaturiol ond pan gymer marwolaeth le yn moreu neu yn mlodau bywyd, neu unrhyw amser cyn y terfyn iawn, ac os cymer le cyn hyn ein bai ni ein hunain yw, fel rheol, neu eiddo ein rhieni a'n tadau a'n teidiau o'n blaen. Ni ddylem, ynte, edrych ar Angau fel gelyn dynolryw a'r mwyaf o'i gelynion, eithr dylem yn hytrach ymdrechu byw bob amser yn unol a deddfau natur a Duw, yn gorphorol, yn feddyliol ac yn ysprydol, fel y byddom trwy hyny i gyrhaedd terfyn naturiol ein bywyd yn y byd yma, ac wedi cyrhaedd y terfyn hwn bydd ini o angenrheidrwydd ei groesawu fel angel mwyn, tosturiol, ac fel yn yr hwyr y croesawa'r

gweithiwr blin orphwysfa ar ol llafur a lludded y dydd. Canys ail-ymuna'r angel hwn ni a pherthynasau a chyfeillion hoff ac anwyl ydynt wedi croesi'r afon ychydig o'n blaen a dwg ni i gymdeithas felus y saint ydynt yn gwasanaethu ac yn molianu Duw, ac i'r wlad well lle, ni a obeithiwn, na bydd raid ymadael mwy. Hyderaf y bydd i'r ychydig sylwadau hyn ddangos agwedd arall, a mwy ffafriol na'r un gyffredin, o Angau i rai beth bynag o'n darllenwyr, ac os felly bydd fy amcan wrth eu hysgrifenu wedi ei gyrhaedd yn llwyr.

D. J. D.

DUW'R DIDDANWCH.

[*Pregeth gosfadwriaethol a draddodwyd yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, Mawrth 16, 1913.*]

Bendigedig fyddo Duw, a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, Tad y trugareddau, a Duw pob diddanwch ; yr hwn sydd yn ein diddanu ni yn ein holl orthrymder, fel y gallom ninau ddiddanu y rhai sydd mewn dim gorthrymder, trwy y diddanwch â'r hwn y'n diddenir ni ein hunain gan Dduw." —2 Cor. 1 : 3, 4.

Mewn gwasanaeth coffadwriaethol y mae'n anhawdd gwybod yn iawn beth i'w ddweyd na sut i'w ddweyd. Y mae tristwch yr amgylchiad yn rhwystr i'r galarwyr fod mewn cyflwr meddwl i wrando yn iawn ac i gymeryd golwg briodol ar ddim a ddywedir. Yn ddiweddarach, daw yn hawddach. Fe ddwg amser ar ei adenydd distaw ryw ddylanwad rhyfedd i liniaru'r clwyf edy

Marwolaeth

ar ei ol, ac i esmwythau'r dolur sydd yn cydfyned a thrallod a galar. Deuir i ddeall hefyd bob yn ychydig fod lle bod gwaeth, a chyda hyny daw'r posibilrwydd i ddiddanwch gael lle. Fe glywir y llais distaw yn llefaru — " Nac edrych i'r bedd, ond edrych i'r nefoedd." Fe geir cipdrem ar

Ymyl Gwyn y Cwmwl ;

oblegid y mae i'r cwmwl duaf ei ymyl goleu ; a phe gallem ond esgyn i'r ochr hwnt caem weled fod yr ochr hono i gyd yn ddisglaer wyn. Yr oedd Ysgol Jacob yn sefyll ar y llawr a'i phen yn cyrhaeddyd hyd y nefoedd, ac angylion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi, ac wele —Yr Arglwydd yn sefyll arni. A gawn ni lincio ein cadwyn wrth y Gallu anweledig hwn?

Darllenwn yn Chwedloniaeth y Groegiaid i'r prif dduw, Zeus, gyflwyno

Blwch Prydferth

i ferch ieuanc o'r enw Pandora,

gyda'r gorchymyn pendant nad oedd hi ddim i'w agor ar un cyfrif; ond yn debyg i Efa gynt fe fethodd cywreinrwydd y fenyw ymddal yn wyneb y brofedigaeth. Hi agorodd y Blwch, ac wele, fe ddiangodd allan o hono yr holl flinderon y mae dynolryw heddyw yn cael eu blino ganddynt. Pan welodd hi hyny, brysiodd Pandora i gau y blwch; ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Nid oedd yno ddim yn aros ar ol ond—*Gobaith.* Ond diolch i Dduw am gymaint a hyny. Y mae Gobaith wedi aros byth ar ol, yn etifeddiaeth gyfoethog i ddynion hyd heddyw.

Y mae'r wers yn amlwg pe gallem ond dal arni. Er colli pob peth, y

MAE GOBAITH YN AROS

o hyd o fewn cyrhaedd—Gobaith i'n dyddanu, ac y mae ei eisieu yn fynych arnom.

Y mae sydynrwydd ymweliad marwolaeth yn ein hanalluogi ar y pryd i weled dim ond y tywyllwch sydd megys wedi ymgau am danom, a charedigrwydd ar ran y rhai sydd y tu allan i'r cwmwl fydd awgrymu fod o hyd le bod gwaeth.

Gelwir Angeu yn "Frenin y Dychryniadau," a dyna yw ar brydiau i lawer; ond y mae'n werth i ni gofio ei fod hefyd yn angel Duw—cenad Duw.

> How wonderful is Death—
> Death and his brother Sleep.
> —*Shelley.*

Angeu a Chwsg yn frodyr, a phob un yn cario allan gynllun Duw ar ran dyn. Fe wyr pawb fod angeu i ddod, ac eto y mae yn syndod i bawb pan y daw. Gwyddom fod eraill i farw, ond ni sylweddolwn ei fod i gyffwrdd â ni; ac eto mae ein tro ni yn rhwym o ddod. Y mae

ANGEU YN ANOCHELADWY.

Y mae mil o ddrysau i ollwng bywyd allan, ac ni wyddom ni ddim drwy ba un y diangwn ni. Ni wyddom ni ddim chwaith *pa bryd* y bydd hyny, a da i ni hyny. Gwyddom fod marw yn ein haros; gwyddom nad ydym yn anfarwol. Y mae'r ffaith fod yn rhaid bwyta ac yfed yn brawf digonol nad yw ein bywyd daearol i barhau byth. Dylai fod yn gysur, fodd bynag, i ni feddwl fod marwolaeth yn

OSODIAD DUW—

yn rhan o'i gynllun gwreiddiol. Os felly, rhaid ei fod yn dda ac nid yn ddrwg—y peth goreu i bawb, y peth goreu hyd y nod i'r drwg. Y mae'n well bod yn llaw Duw anfeidrol dda nag yn un man arall.

Nid yw marw, mewn gwirionedd yn beth i'w ofni, mae'r plentyn bach yn marw. Y peth anhawdd yw byw, a byw yn iawn. Nid yw neb gwaeth o farw. Bydd dyn dan lywodraeth yr un Duw doeth a thrugarog, ar ol, megys cyn marw. Ni wnaeth Duw erioed gam a gwr yn ei fater, ac ni wnaiff byth. I'r byw y mae marw ein hanwyliaid ar y pryd yn galed iawn; ond nid oes dim allwn ni wneud. Nid yw'r mater yn ein dwylaw ni. Ni allwn ni alw y marw yn ol, ac ni fyddai yn ddoeth pe gallem. Ni ddeuant hwy atom ni, ond yn gynar neu yn ddiweddar awn ni atynt hwy. Bydd

GALARU YN NATURIOL,

ond ni weddai i ni alaru fel rhai heb obaith. Y maent hwy wedi dianc, hwnt i gyrhaedd poen a thrallod, ac i ni mae'r amgylchiad yn wers newydd—yn ddysgyblaeth angenrheidiol. Y mae yn mynwes pob marwolaeth nerthoedd gwerthfawr a ddylent gael lle amlwg yn ein bywyd a dylanwadu er ein lles cyffredinol.

Dieithr am dymor fydd ein cartref ar ol colli cyfaill. Bydd y

GADAIR WAG

yn wrthrych sylw mynych ac yn awgrymu gwersi pwysig; eithr nid

dieithr fydd y cartref "hwnt i'r llen," bydd yno gyfeillion fyrdd,—yn ngeiriau'r hen emyn—

Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

Nid oes genyf ond y cydymdeimlad llwyraf a'r cyfryw hyny sydd yn

METHU CREDU;

ond dim, dim a'r un faedda haeru yn ei ynfydrwydd, ac megys mewn teimlad o hollwybodolrwydd sydd yn aradu teimladau mwyaf cysegredig y galon ddynol—nad oes dim yn bod, na Duw, na diafol, nac uffern na nefoedd. Gallwn gydymdeimlo a'r Proffeswr Clifford pan y dywed—"I have seen the sun shine out of an empty heaven, and I have felt the utter loneliness that the great Companion is dead." Aeth yr oll i golli arno gydag erthyglau ffydd yr eglwys y dygwyd ef i fyny ynddi.

I raddau hefyd, gallwn gydymdeimlo a Lord Byron, er nad oedd ef y peth y dylai fod o ran bywyd a buchedd. Carai Byron, a chyffesai fod y crediniwr ar ei fantais oblegid y diddanwch oedd iddo yn ei gred drwy ei fywyd; ac ar derfyn ei fywyd, hyd y nod os nad oedd dim wedi'n, ni fyddai ei sefyllfa yn ddim gwaeth nag eiddo yr anghrediniwr. O'r tu arall, os gwir yw

FFYDD Y CRISTION,

gan fod gwahaniaeth anfeidrol rhwng rhinwedd a phechod, bydd man cychwyniad y dyn da a'r dyn drwg yn wahanol iawn.

"Nhad," meddai'r ferch ieuanc ar ei gwely angeu, "beth fydd oieu i mi yn awr? Dyma fi ar fin eich gadael. A gaf fi lynu wrth ffydd mam, neu wneud fel y gwnaethoch chwi, daflu hono o'r neilldu a bod heb un." "Fy merch anwyl," ebe'r anghrediniwr, gyda'r dagrau yn ffrydio o'i lygaid, "dal wrth ffydd dy fam, bydd hono yn help i ti." Gwir, gwir iawn, ac yn sicr ni fyddai ffydd ei thad anghredinol yn un help i'w ferch i wynebu angeu. Robert Hall, onide, a ddywedodd iddo ollwng ei faterolaeth i lawr i fedd ei dad?

Mor sicr a bod

GENYM NI DAD

yn y nefoedd y mae genym ni un fydd yn rhaid iddo ddymuno y goreu ar ein rhan, un fydd yn gwybod y goreu, ac un fydd yn gallu y goreu, ac felly un fydd yn sicr o ddwyn y goreu i weithrediad. "Yn Nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau, a phe amgen mi a ddywedaswn i chwi, yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi."

Byw i mi yw Crist, ebe Paul. Ceisiwn ninau'r Crist ynom ni fel y gallwn weithio ein ffordd drwy ddyrys lwybrau gweddill y daith.

GWRTEITHIWN YSPRYD GOBAITH

a gwasgarwn ef. Ceisiwn greu awyrgylch ysprydol o'r iawn ryw, a bydd ein bywyd yn fendith i ni, ac yn arogl bywyd i fywyd lle bynag y byddwn. Os yw'r linc yn nghadwyn ein bywyd wedi ei thori, ceisiwn ei hailgydio wrth draed yr orsedd wen fawr yn y nef; bydd hyny yn help i ni fyw ein bywyd yn well, fe allai, nag a wnaem heb hyny. Ein dyledswydd bwysicaf heddyw yw gwneud ein goreu o'n bywyd. Cofiwn fod marw yn y byd erioed, a bod gwaith y byd o hyd yn cael ei gario yn y blaen gan y rhai sydd ar ol. Wele ninau ar ol am dipyn bach drwy genad y Tad goreu. Codwn i fyny, ymwrolwn, a dychwelwn at waith ein bywyd.

Caraf benderfyniad y

BRENIN EDWARD VII,

ac yr wyf wedi meddwl llawer am dano. Pan fu farw y Frenhines Victoria teimlodd y plant yn ddiameu yn debyg fel y teimlai plant pobl eraill. Yr oedd caddug y tywyllwch wedi eu goddiweddyd, yr oedd dagrau yn y llygaid, yr oedd galar yn y galon—galar o golli mam dda. Mor debyg yw'r galon ddynol yn

mhob dosparth, bydded gyfoethog, bydded dlawd. "One touch of nature makes the whole world kin."

Ond yr oedd baich y Deyrnas i syrthio ar ysgwyddau Edward, ac ni allai'r meddwl am hyny lai na gwneud ei faich yn drymach. Ond fel yr angenrhaid a osodwyd ar Paul i bregethu'r Efengyl, daeth yn angenrhaid ar Edward—ni allai ddianc.

Ni wn i a oedd erioed wedi gweled y darlun rhyfedd hwnw a wnaethpwyd gan y painter Almaenaidd enwog Retsch—darlun o wr ieuanc yn

Chwareu Game o Chess

gyda'r gwr drwg. Wrth y gwr drwg y golygir anhawsderau bywyd, y temtasiynau a'r profedigaethau a ddeuant i gyfarfod a dyn mewn bywyd. Y mae miloedd yn chwareu'r *game* ac yn colli. Gwelodd Edward ac beth oedd yn ei aros, ac wedi ystyriaeth briodol gwnaeth ei benderfyniad, ac ebe efe "I will the game!" ac fe'i gwnaeth, fel y gwyr pawb, yn ardderchog. Enillodd edmygedd a pharch pawb ac aeth o'r byd gyda'r enw newydd—

Edward The Peacemaker!

Y mae ein bywyd yn llawn o ffynonau tristwch, ond y mae'r oll er dysgyblaeth, ac oll yn ddefnyddiol. Ac yn awr, dyma'r wers—Play the game. Dechreuwn ar unwaith, heddyw ac nid yfory.

Defer not till to-morrow to be wise.
To-morrow's sun to thee may never rise.

Cyflawnwn waith pob dydd yn ei ddydd, ac nid meddwl am ryw amser i ddod. Y mae gan Angeu ryw arfer o'i eiddo ei hunan. Mae'n gwneud ei ymddangosiad pan na fydd neb yn dysgwyl, ac ystyr amlwg hyny yw "Bydd barod, canys yn y dydd a'r awr ni thybioch y daw Mab y Dyn." Ni wiw dilyn esampl

Y Gwr Goludog

ac ychwanegu mwy na mwy o faesydd at eu gilydd, neu o bosibl y clywn ni fel y clywodd ef:—O ynfyd, y nos hon gofynant dy enaid oddi wrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoiaist.

Fel yr awgrymwyd eisoes

Ein Bywyd Ni Sydd Bwysig,

byw yn iawn. Heb anghofio fod y fath beth ag angeu yn rhan o'r program, peidiwn pendrymu uwch ei ben, neu fe actia fel llyfethair ar ein gweithgarwch. Dygwyddiad—incident—yn ein hanes yw angeu—step ar lwybr y blaenfynediant, drws i fywyd ac anfarwoldeb.

Fe ddywedir mae

Amser Gwaith yw hi yn Awr

ac y ceir digon o orphwys yn y bedd. Mae'n wir yn nghylch amser gwaith, ond credaf fi nad yw dyn yn mynd i'r bedd o gwbl. Aiff y corff i'r bedd am nad oes ei eisieu mwy; aiff y dyn, wel—lle myno Duw—neu yn ol yr hen lyfr, y pridd i'r pridd, yr yspryd, yr hwn yw y dyn, at Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Nid wyf fi chwaeth yn credu mai gorphwys a segurdod fydd yn y bywyd hwnt i'r llen; ond yn hytrach y bydd yno waith a digon o hono i ateb dibenion pob un. Ni fyddai nefoedd yn nefoedd heb fod yno rywbeth i'w wneud—rhyw ddefnyddioldeb, rhyw wasanaeth. Ebe Iesu, Y mae

Fy Nhad yn Gweithio

hyd yn hyn, ac yr ydwyf finau yn gweithio. A chredaf fi eu bod yn parhau i weithio, ac y dysgwylir i ninau barhau i weithio wedi myned drosodd. Credaf fi yn urddas llafur—the dignity of labour—ac y bydd yn rhaid i'r sawl a segurant heddyw, cyn y gallant sicrhau eu nefoedd, ddysgu'r ffordd i fod o wasanaeth, neu ni ddeuant byth i feddiant o nefoedd.

Y mae Miss F. P. Cobbe wedi ysgrifenu llyfr dan yr enw "*The Peak*

of Darien."—*Cape* neu Benrhyn oddiar yr hwn y dychymygai fod dyn yn edrych allan o bryd i bryd i gael gweled a oes tir yno. Cafodd Columbus pan y croesodd fod yno drigolion lawer. Fel cwmpawd y morwr y mae genym ninau ein nod o ymgyfeiriad. Edrychwn, syllwn, a gwelwn gyfaill ar ol cyfaill yn croesi, a gwyddom yr awn ninau yn y man ar eu hol, ac er ein llawenydd fe gaiff llawer o honom fod genym fwy o gyfeillion yno nag sy genym yma.

RHOWN NI CHWAREU TEG

i'r goreu sydd ynom, ac fe ddaw gobaith i fyny eto o'r tywyllwch, ar ei hedyn disglaer, a hi a gyfeiria at gartref ein hanwyliaid Rhoddwn bob chwareu teg fel y caffo ein natur oreu lefaru.

O, for the touch of a vanished hand,
And the sound of the voice that is still.

O, am gyffyrddiad anweledig law,
A swn y llais sydd wedi mynd i'r taw.

Derbyniwn eiriau'r proffwyd, y rhai a esyd ngenau'r Goruchaf.—"Yr holl eneidiau eiddof fi ydynt." O, am i ni feddianu mwy o ffydd yr hen Iuddewon gynt, a chredu fod

TAD YR AMDDIFAID

a Barnwr y gweddwon yn fyw o hyd. Y mae'r gred yn gynhenid yn natur dyn ac felly yn rhan o hono, wedi ei blanu ynddo gan Dduw ei hun. Ebe'r Psalmydd: —Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa, a hyspys wyt yn fy holl ffyrdd (Ps. 139: 13); ac eto, Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch, felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl o'r pryd hwn hyd yn dragywydd (Ps. 125: 2.)

For what is man better than sheep or goats
That nourish a blind life within the brains,
If, knowing God, they lift not hand of prayer,
Both for themselves and those who call them friend,
For so the whole round earth is every way
Bound by gold chains about the feet of God.

Gweddia droswyf. Gwneir trwy weddi fwy
Nag mae'r byd hwn yn feddwl. Gad i'th lais
Fel ffynon godi droswyf ddydd a nos.
Beth gwell yw dyn na'r hydd, neu'r oen, neu'r myn
Feithrina yn ei 'menydd fywyd dall,
Os heb adnabod Duw, ni ddyrcha lais
Mewn gweddi dros ei hunan a'i holl gar?
Mae'r holl fyd crwn yn mhob rhyw fodd
Wrth gadwen aur yn rhwym gylch traed ein Duw!

THEOSOPHY.—Derbyniasom draethodyn bychan ar y pwnc hwn, gyda dymuniad iddo gael ei adolygu yn YR YMOFYNYDD; ond ofnwn fod ein gwybodaeth o'r pwnc yn rhy elfenol i wneud cyfiawnder ag ef, tra mae'r traethodyn ei hunan yn rhy elfenol i roi fawr help. Casglwn mai prif amcan y mudiad yw "adeiladu cymeriad da." Yr ydym mewn perffaith gydymdeimlad a'r amcan hwnw, a dymunwn Dduw yn rhwydd. Mor bell ag y gwyddom dyma'r peth cyntaf yn y Gymraeg ar y pwnc wyth tudalen, neu tua dau dudalen o'r YMOFYNYDD.

AR BONT CAPEL CYNON.

(PARHAD).

Ar y bont, ymrithia mil o adgofion ereill drwy fy meddwl. Sut y gallodd neb erioed dreulio mebyd hapus heb ffair hanner-blynyddol Capel Cynon? Y ddwy ffair a gynhelid yn yr ardal oedd haul a lleuad fy ieuenctyd. Ac yr oedd y ty mawr acw'n gartref miri a gwledda, canu ac yfed, caru a llawen chwedleua, ar ddydd mawr Ffair Gynon.

Am wythnosau ymlaen-llaw cadwn bob dimai a gawswn, ac nid oedd hynny yn gwneud rhyw swm enfawr! —ar gyfer diwrnod Ffair Gynon, neu Ffair Dyrchafael, fel y gelwid hi ym Mai. Am ddyddiau lawer cyn yr achlysur, dyna'r holl siarad rhwng plant yr ysgol, Ffair Gynon. Fel pob amgylchiad o bwys a ddigwydd yn y byd, yn raddol y gwawria'r ffair arnom; y siarad am dani rhwng y plant, i ddechreu; yna'r bobl mewn oed yn son am werthu buwch neu fustach; yna'r clwydi yn cael eu gosod yn eu lle i ffurfio'r llocau erbyn y ffair ddefaid a gynhelid ddiwrnod cyn y ffair fawr. Yn wir cyrhaeddai rhai o'r standinau'r Rhyd, ac agorid hwy weithiau y nos cyn y ffair; ac yn aml yr oedd rhai o'r dimeuau yn cael eu haberthu ar allor melus bethau brynhawn y ffair ddefaid. Bron yn ddieithriad, deuai Phebi a'i standing i Gapel Cynon yn gynnar, a'r *India Rock* eto yng ngogoniant cynhennid ei liw a'i flas; ac yr oedd Phebi mewn hwyl busnes pan newydd gyrraedd y lle. Cyn y diwedd byddai'r hen wraig o Gaerfyrddin yn dueddol i hongian ei thelyn fasnachyddol ar helyg cyfeddach, a chai'r standin yn aml ofalu am fusnes ei hun cyn dyfod o derfyn y ffatr.

Ond dyma'r bore mawr yn gwawrio, bore hyfryd o Fai. Codaf am chwech, i weled y bobl yn dechreu teithio tua'r canolbwynt drwy'r heol gul sydd yn pasio heibio Gwmarch a'r Allt Ddu. Ond ni ddigwydd hyn hyd tuag wyth o'r gloch, pan y clywaf fref buwch ddieithr yn y pellder; ac yn y man gwelaf ddeuddyn mewn brethyn glas garw yn arwain creadur corniog ac aflywodraethus dros gongl y waen. Yn fuan daw rhagor o wyr a gwragedd, ac ambell i geffyl ac anner wyllt yn eu mysg, yr oll yn tynnu am y Rhyd a banc Capel Cynon. Cyn hir wele fechgyn a merched ifainc yn eu dillad goreu, ac yn llawn digrifwch a llawenydd, yn cerdded i lawr drwy lôn Gwmarch, ac yn cyfeirio eu camrau at fanc y Ffair.

Erbyn hyn yr wyf finnau yn ddrain yn fy nghroen gan awydd cychwyn, ac wedi golchi fy wyneb o leiaf deirgwaith er mwyn bod yn barod i fynd. O'r diwedd, dyna'r caniatad yn dod oddiwrth fy mam i wisgo'm dillad dydd Sul, a chyn pen fawr o amser, yr wyf yn ddyn trwsiadus, a'r dimeuau'n swnio'n hyglyw yn llogell fy llodrau; ac ni fu lawenach erioed yr un ymerawdwr yn ei borffor, ar gychwyn i wlad bell, yn llwythog o aur a pheraroglau, i'w dwyn yn anrhegion i ryw dywysoges lygeitu, er ei denu'n ol yn ymerodres ar ei wlad ei hun.

Croesaf drwy frwyn a rhedyn y waen, allan i'r ffordd sy'n arwain i'r pentref; galwaf ar blant Gwmarch, ond nid ydynt yn hollol barod; ac nid oes gennyf amynedd i aros. Mae Ifan 'r Rallt Ddu ar hanner clymu ei esgidiau, a bydd allan ar yr heol mewn amrant, medd ei fam; ond mae'r eiliadau yn rhy werthfawr i'w colli ar ddydd Ffair Gynon; a ffwrdd â mi, heibio gwartheg, a moch, a defaid, a cheffylau, a gwyr a gwragedd, a merched llawen, a bechgyn direidus, mewn brys gwyllt i gyrraedd y pentref. Geilw rhai o'r crytiaid dieithr enwau cas ar fy ol; ond ba waeth? Ymlaen y mae dedwydd-

wch. Onid yw Phebi, a'i chandi a'i *Hindia rock*, eisoes wedi lledu ei phabell hawddgar wrth dalcen ty'r Rhyd? Onid yw tilt Pegi'r Cwit eisoes yn chwifio yn yr awel ar y banc?

Ond wele'r pentref, yn cynwys tri thy byw a siop, yn orlawn o wyr a gwragedd ac anifeiliaid, a siarad y bobl a brefiadau'r gwartheg yn codi'n furmur parhaus,—miwsig o'r melusaf i'm clustiau i. Nid af allan i'r wlad heddyw, a chlywed buwch yn brefi, na ddaw peth o lawenydd Ffair Gynon yn ol i'm calon gyda'r swn. Mae dau neu dri o fechgyn llewyrchus mewn dillad o frethyn gwlad a staen slibwt (*sleeve-board*) y teiliwr eto'n aros arno, wedi dechreu parablu'n uchel a bostiog; ac y mae'n amlwg fod cwrw da ar werth yn y Grange Inn heddyw; ac fod prisiau'r anifeiliaid yn codi. Trof at standin Phebi. O, mae yn fy adnabod er y ffair o'r blaen, neu o leiaf dengys hynny. Galwaf am lasied o bop, gan fod syched wedi'm gorddiwes ar y daith; ac am ddimeiwerth o gacs melynion, gan fod eisieu bwyd yn dechreu dod arnaf. Yna dechreuaf yn wrol ddringo rhyw'r Wstrws i gyfeiriad cae'r ffair. Mae llawer ysgarmes wedi cym'ryd lle ar y rhiw hon. Onid yma, medd traddodiad, fodd bynnag, y collodd Christmas Evans ei lygad, ar y ffordd adref o Ffair Gynon flynyddau mawr yn ol?

Ond, o'r diwedd, dyma fi wedi cyrraedd bwlch y cae; ac erbyn hyn, dros yr heol fawr, o Landyssul ac o'r Ceinewydd, o Lanarth a Thalgarreg, a Phantdefaid a Thregroes, o bedwar ban y byd a rhagor o lawer, mae'r torfeydd yn dylifo i Fanc y Ffair Mae yna fargenna rhwng pob dau, tiltau yn ddirif, standinau dideifyn, baledwyr yn canu baledau am yr eneth gadd ei gwrthod, am Hannah Dafis, am y danchwa ofnadwy yn swydd Forgannwg ddu, ac am y lofruddiaeth ysgeler yn Llanelli. Mae yna chwareu taflu *rings*, a *hit my legs;* mae yma borthmyn llyfndew a gwragedd bara cann a thinceriaid a sipsiwns; a rhai yn gwerthu gwlaneni ac ereill yn gwerthu 'sanau; ac uwch y swn a'r berw i gyd cyfyd bref y fuwch am ei llo a gweryriad y gaseg am ei hebol. Ac yn awr ni wnaf ond gwthio fy ffordd yn araf hwnt ac yma ar hyd y ffair; o felusion i felusion; o syndod i syndod; o ryfeddod i ryfeddod; ac o wyrth i wyrth; mae'r llawenydd yn cynhyddu a'r dimeiau'n prinhau. Cwrddaf â Tomos yr Hafod, *gentleman farmer* y fro; nid yw wedi fy nhalu am gludo'r ddau lythyr olaf iddo o'r post; ac y mae newydd werthu ceffyl, ac yn dod allan o dilt Tafarn Bach a'i bwrs molscin yn llawn; caf ddwy geiniog ganddo, ac yr wyf yn gyfoethog unwaith eto

Gwelaf fy modryb o Landyssul, ac y mae hithau newydd werthu ei 'sanau am bris da; ac wele geiniog arall i chwyddo fy ngolud. Yn y man deuaf ar draws Siams Gwmarch, gofyn hwnnw imi, was bach, am fy nhad; ac ni threuliais ffair erioed heb rywbeth o law Siams

Mae yma standinau tê, a standinau cawl, a thiltau cwrw; ond pop a chacs melynion i mi; caf fyw ar de a chawl am chwe mis eto; ac nid wyf hyd yn hyn wedi datblygu blas at gwrw, heblaw hynny, mae'r cwrw'n geiniog a dimai'r glasied; a cheir gwydriad da o bop, a'r ffroth yn codi'n gapan am y glas, am ddim ond dimai goch.

Ond dacw gynnwrf fan draw, a phawb yn rhedeg i'w gyfeiriad; a gadewir ambell i standin heb neb i edrych ar ei hol; beth sy'n bod? Anodd i ddewin am yspaid ddweyd beth yw'r cyffro. Mae pawb yn gwthio eu gilydd i geisio cael gweled beth yw'r cyffro. Mae yno dwrw ofnadwy; ond nis gwyr neb am beth. O'r diwedd gwelaf ddau yn nghanol y terfysg yn haeru, ac ymddaneddu, ac y mae cwff yn hat un, a glâs y borfa ar gefn ei got frethyn newydd; mae'n amlwg ei fod wedi bod mewn cyffyrddiad disymwth a diseremoni â'r ddaear.

O'r diwedd caf wybod yr achos o'r helynt. Mae gwas Allt Maen wedi bod yn treio ei law ar *hit my legs*, ac wedi taro morwyn Blaen Glowon yn lle'r marc dyladwy; ac y mae cariad

honno wedi sefyll ar ei draed ol o'i phlaid. Aeth yn dafodi brwd, gyda'r canlyniad i was Allt Maen gael ei daflu i'r llawr yn lled drwsgl a diymdroi gan gariad morwyn Blaen Glowon. Ond o'r diwedd daeth gwr Pantsoden, cawr o ddyn yn sefyll yn chwech a thair yn nhraed ei 'sanau, allan o dilt Pegi'r Cwrt, a chan alw ar enw tad y cynhennau, gorchymynnodd i'r gelynion wneud heddwch, neu buasai ef yn cnocio'r ddau grecwyl wrth ei gilydd fel corgwn newydd eni! A rhag ofn digwydd o bethau gwaeth, ymwahanwyd, ond nid heb i was Allt Maen fwmial rhwng ei ddannedd,—"Mi fydda' i gyda ti yto rhyw getyn, 'y ngwas i!"

Rywbryd yn y prynhawn, wedi gwerthu'r creaduriaid, neu fynd a hwy adref heb eu gwerthu, yr oedd amser prysur hala i 'mofyn cariadon yn dod. Eisteddai gwas Llaniago yn nhilt Pegi'r Cwrt, a danfonai fab yr Hafod i chwilio morwyn Ty'n y Mynydd iddo ar y banc. Ac os byddai hwyl ar y feinwen, neu os oedd heb dderbyn cynnyg gwell yn barod, deuai, yn wylaidd a gwridog, ym mhraich mab yr Hafod i eistedd ar y ffwrwm yn ymyl ei hedmygydd swil o Laniago. Galwai hwnnw am lasied o *lemonade*, neu efallai, *port wine*, i'w feinir gywilyddgar; ac eisteddent yn y tilt am yspaid; yna aent i grwydro ar hyd y ffair. Llanwai'r llanc ei chadach poced â ffeirins; ac yn gynnar y prynhawn, hebryngai hi, a'i law dros ei gwarr, dros y rhos i gyfeiriad Ty'n y Mynydd.

Weithiau, rhwng brâd ac eiddigedd, cyfodai ffrwgwd rhwng y bechgyn ar y ffordd; a gwelid ambell i drwyn coch a llygad du; ond nid yn aml y digwyddai hynny.

Ond mae Pegi'r Cwrt yn dechreu codi ei thilt, mae amryw o'r standinau wedi eu gwerthu 'maes; mae gwyr yr *hit my legs* wedi ymneillduo i'r Grange; mae'r baledwr wedi canu ei hun i gysgu yn nghysgod cropyn eithin; mae'r parau ifainc wedi dechreu'r ffordd adref i gyd; mae Phebi druan wedi mynd i hepian i un o "dai maes" y Rhyd; mae gwydryn yn y prynhawn wedi codi cysgu arni; mae'r da a'r moch a'r defaid wedi diflannu; mae'r ffordd fawr, i'r ddau gyfeiriad, yn frith gan gerti a wageni; mae rhyw flinder melus wedi dyfod drosof finnau, ac nid anodd fy nghymell, erbyn hyn, i fynd adref. Mae'r boced yn wag o bres, ond mae'r galon yn llawn o gofion hudol a phersawrus. Cerddaf adref yn araf a dedwydd yn nghwmni rhai o fechgyn Gwmarch a'r Allt Ddu, cymharwn ein profiadau yn y ffair; faint o geiniogau wariwyd; beth a brynwyd; sawl glasied o bop a yfwyd; a'r nifer o gacs melynion a barau o'r *India rock* a fwytawyd. Cyn dyfod o'r nos yr wyf yn gorphwys yn dawel yn fy ystafell gartref, yn ail dramwy drwy'r dorf ar y banc, ac yn derbyn o ddwylaw cwsg fwy fyth o geiniogau nag a gefais yn ystod y dydd. Ac felly yr aeth heibio ddydd Ffair Capel Cynon.

A mi eto yn eistedd ar y bont, ymddengys llawer o'r hen ardalwyr o fy mlaen am ennyd, gan ymrithio'n ol eto i'r cysgodion. Mae'r goleuni olaf wedi diffodd yn y pentref; mae teulu'r Hafod wedi myned i orphwys ers oriau. Dyna swn y cadno yn eithin yr Allt Ddu; mae'n amlwg fod pob creadur gonest wedi myned i hepian am y nos. Rhaid brysio ymaith.

SARNICOL.

[DIWEDD.]

Y GOG.

Y Gog enwog a gana—ei deunod
Anwyl wrth y gamfa;
A'r cariadon a lona
Yn mhill hon sy'n cymell ha!

—*O'r Geninen.*

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1913.

Cymerodd le prydnawn Gwener, yr 11eg o Ebrill. Cynhaliwyd arholiad mewn pedair ar ddeg o'n Heglwysi. Da genym fod dwy o'r Ysgolion ag oedd wedi encilio o'r maes wedi dychwelyd eleni. Achwynai amryw o'r arholwyr nad oedd y plant wedi cael eu haddysgu yn dda, ac y maent wedi barnu amryw o honynt yn anheilwng o le yn mhlith y rhai llwyddianus. Nid ydym yn cofio i hyn ddigwydd yn nglyn a'r Arholiad o'r blaen ; ond y mae Arholiad yn colli ei hamcan os na chydnabyddir rhyw safon.

Cawd adroddiadau am waith da wedi cael ei wneud mewn rhai Ysgolion ; mae hyny yn galonogol iawn, a hyderwn y ceir mwy o ymdrech yn nglyn ag addysgu y plant y flwyddyn nesaf yn yr Ysgolion hyny ag oedd wedi eu hesgeuluso eleni. Diolch i'r Arholwyr am eu gwasanaeth.

L. WILLIAMS,

Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

ALLTYPLACA. ARHOLWR—MR. D. R. DAVIES, C.M.

Cyfanrif 31.

Safon I.—Dosparth I.—Gwinnie Anne Price, Martha Anne Thomas, Mary Letitia Price, Sally Jane Evans, Maggie Mary Evans, Jenkin Evan Thomas, Evan Daniel Evans, Gwilym John Evans, Thomas Jones, David Morgan Rees, Willie Bateman Rees, Howell Price, Evan Price, Howell Price Evans, Daniel Rees Evans.

Dosparth II.—Dorothy Williams, Daniel Jacob Thomas, David Beynon Thomas.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Letitia Price, Gwinnie Anne Price, Martha Anne Thomas, Thomas Jones, David Morgan Rees, Howell Price Evans, Daniel Rees Evans.

Dosparth II.—Willie Bateman Rees, Howell Price, Gwilym John Evans, Evan Daniel Evans, Jenkin Evan Thomas, Evan Price.

BRONDEIFI. ARHOLWR—PARCH. D. EVANS,

Cyfanrif 23.

Safon I.—Dosparth I.—Martha Anne Davies, Myfanwy Davies, Bessie Davies, Maggie Bronwen Davies, Minnie Williams, Jennie Williams, Nellie Jones, Sally Olivia Davies, Mary Hannah Davies, John Lewis Jones, Thomas Henry Jones, Gwilym Davies, David Daniel Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Hannah Jane Lloyd, Jane Mary Davies, Sarah Mary Jones, Annie Davies, Mollie Davies, Jane Jones, David John Evans, Johnny Davies, Gwen Ellen Jones, David Joshua Davies.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH J. DAVIES.

Cyfanrif 25.

Safon I.—Dosparth I.—May Jones, Elizabeth Thomas, Lizzie Evans, Judith Anne Kent, Jane Mary Davies, Elizabeth Anne Davies, Nellie Jones, Sophia Jones, Nancy Evans, D. Albert Jenkins, Johnny Jones, Daniel Thomas, David John Thomas, David James Evans, Tom Arthur Kent, Daniel Jones, David Jones, Evan Jones,

Safon II.—Dosparth I.—Lizzie Evans, Jane Mary Davies, Nellie Jones, Sophia Jones, Daniel Thomas, David James Evans, Daniel Jones.

CAPEL-Y-BRYN. ARHOLWR—MRS. EVANS, Alltyplaca.

Cyfanrif 29.

Safon I.—Dosparth I.—Margaret Thomas, Mallie Evans, Sarah Jones, Rachel Ellen Evans, Martha Jane Thomas, Jane Davies, Jenny Thomas, David Brynle Evans, Willie Evans, Tom Idwal Davies, Evan Evans, John Thomas, Evan Emrys Davies, Evan Evans, Evan Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Evans, Hannah Jane Pugh, Lizzie Ellen Evans, Annie Jenkins, Maggie Evans, Sarah Jenkins, Sarah Hannah Morgans, Kate Jenkins, Marguerite Jemima Davies, William Jones, David Tom Davies, David Leonard Pugh, John Tom Davies, Evan Davies.

CILIAU AERON.—ARHOLWR—MISS HOWELL, Dolboidy, Felinfach.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Anne Jane Davies, Evan Daniel Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Olwen Evans, Sarah Jane Davies, David Edwin Davies, Emrys Hughes, James Davies.

CAERONEN. ARHOLWR—MISS DAVIES, Carrara House, Lampeter.

Cyfanrif 15.

Safon I.—Dosparth I.—Mary Jane Davies, Sarah Helen Davies, Dinah Davies, Helen Davies, Nancy Davies, Watkin William Davies, David John Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Jane Jones, Sarah Helen Davies, Dinah Davies, Helen Davies, Nancy Davies, Sarah Eleanor Jones, Watkin William Davies, David John Jones.

CRIBYN. ARHOLWR—PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanrif 59.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Jane Davies, Margaret Evans, Margaret Anne Jones, Sarah Jane Richards, Rachel Jones, Bessie Jones, Kate Anne Evans, Rachel Mary Evans, Rachel Mary Harries, Margaretta Jones, Mary Hughes, Hannah Jones, Martha Anne Jenkins, Elizabeth Mary Davies, Esther Jones, Hannah Mary Jenkins, Anne Jones, Lizzie Williams, Hannah Mary Jenkins, Nellie Jones, John Jones, Evan Aeron Williams, Benjamin R. Jenkins, David Evans, James Evans, Evan Howell Jones, John Williams, Daniel Davies, David Tom Evans, David Llewellyn Jones, Daniel Llewellyn Jones, Jenkin Harries.

Safon I.—Dosparth II.—Nancy Williams, Owen Evans, John Jones, Arthur Thomas Evans, James Rees Jones, Rees Owen Williams, David Tom Ridd.

Safon II—Dosparth I.—Sarah Jane Richards, Rachel Mary Evans, Hannah Mary Jenkins, Lizzie Williams, Nellie Jones, Anne Jones, Rachel Mary Harries, Margaretta Jones, Mary Hughes, Hannah Jones, Elizabeth Mary Davies, Hannah Mary Jenkins, John Morgan, Evan Howell Jones, John Williams, Evan Daniel Evans,

Safon II.—Dosparth II.—Esther Jones, Nancy Williams, James Evans, Daniel Davies.

CAPELYFADFA. ARHOLWR—MISS M. E. JONES, Pontshan.

Cyfanrif 21.

Safon I.—Dosparth I.—Anne Jones, Hannah Evans, Margaret Davies, Mary Jane Jones, Maggie Crabbe, Margaret Ellen Jones, Evan Davies, Thomas Garfield Jones. Johnny Jones, David James Griffiths, John Marles Thomas, Daff Jones, Johnny Crabbe.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Evans, Sarah Anne Jones, Nancy James Evans, Hannah Jones, Johnny Jones, David James Griffiths, Daff Jones Johnny Crabbe.

GRAIG, LLANDYSSUL. ARHOLWR—MR. D. DAVIES, Pantdefaid.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Jane Olwen Jones, Mary Lewis, Dewi Evans.
Safon I.—Dosparth II.—David Jones, Tyssul Jones.
Safon II.—Dosparth I.—Katie Jones, Gwen Evans.

HEN DY CWRDD, Aberdâr.

ARHOLWR—PARCH. J. CARRARA DAVIES.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Ada Elizabeth Harrison, Maggie Roberts, Lizzie Jane Jones, Ellen Anne Evans, Rachel Morfudd Davies, Trevor Roberts, Robert Vivian Harrison.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—PARCH. T. A. THOMAS.

Cyfanrif 20.

Safon I.—Dosparth I.—Annie Jones, Nellie Boyles, Winnie E. Jones, Rachel Richards, Margaret Evans, Mary Evans, Frances Mary Evans, Anne Evans, Dewi James Jones, Evan James Boyles, John Griff Williams, Martin Luther Evans, Evan John Jones, David Grffiths, Evan James, Johnny Jones, Dewi Oliver, Evan Daniel Jones, John Dewi Evans, James Lewis Evans.

PANTDEFAID. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS, C.M.

Cyfanrif 8.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Richards, Bessie Thomas, Annie Davies, Evan Jones, Tom Thomas, D. R. Thomas, Christmas Evans, Johnny Evans.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif 24.

Safon I. - Dosparth I. Margaret Anne Jones, Rhys Evans, David Evans, Daniel Ceiriog Evans Jenkins, Josiah Thomas, Jenkin Griffiths Jones, David Daniel Lloyd.

Safon II.—Dosparth I. Rachel Anne Evans, Hannah Mary Evans, Mary Jane Williams, Jennie Jenkins, Dinah Jenkins, Mary Elizabeth Jones, Mary Ellen Evans, Hannah Mary Jones, Gwladys Saunders Davies, David Thomas Evans, John Jenkin Jones, James Evans, John Jenkins, Thomas Evans, William Joseph Evans, John Evans, David Daniel Jones.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH SIMON JONES, B.A.

Cyfanrif 13.

Safon I.—Dosparth I.—Gwenllian Bennett, Winnie Morgan, Elizabeth Thomas.

Safon I.—Dosparth II. - Gwladys Mary Morgan, Alice Roberts.

Safon II.—Dosparth I. - Annie Morgan, Maggie May Morgan, Margaret Anne Thomas, Oscar Bowen, Johnny Bowen, Isaac Hopkin, Howel Thomas, W. S. Jones.

MARWOFION.

EBRILL 14, yn 69 mlwydd oed, David John, Ynysmeudwy, ger Pontardawe. Blin genym orfod cofnodi marwolaeth un arall o gewri y bywyd da. Un tawel, tyner, addfwyn, didwyll, diymffrost, oedd Dafydd John. Ni pherthynai iddo ddim o'r arwynebol. Yr oedd ei grefydd ef yn gynwysedig yn y symylrwydd tlysaf. Yr oedd iddo fuchedd naturiol o'r cryd i'r olaf orphwysfa. Y dydd Sadwrn canlynol claddwyd wrth Gellionen, pan y daeth torf enfawr i roi iddo'r ffarwel olaf ar chwareufwrdd amser. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Cynorthwywyd yn y capel, a gweddiwyd ar lan y bedd gan Mr. D. Baran Jones. Na fydded i'r rhai sydd yn wylo, i wylo fel rhai heb obaith, ond bydded iddynt i fod mewn llawn hyder, a ffydd, o gael eto gydgwrdd a'r hwn sydd wedi blaenu ar hyd llwybr, dros ba un y rhaid i bob un o honom deithio hwyr neu hwyrach.

O ! mor hawdded ydyw d'wedyd
"Arglwydd, Arglwydd," ar y Sul ;
Yn y bywyd ymarferol
Y ceir porth y llwybr cul.

Y mae proffes fel yr awel,
Cyfnewidiol yw o hyd ;
Bywyd da sy'n gwel'd i'r dirgel, -
Sefydlogrwydd, - dyna i gyd.

Nid yw bywyd da yn bloeddio,
Fel blodeuyn, mae e'n llon ;
Ac mae'r cysur goreu ganddo, -
Dyna fywyd *Dafydd John.*

— BANOS.

TANNAU ADGOF

AM YR HEN FRAWD DAFYDD JOHN, YNYSMUDW.

Tywallt ydwyf ffrwd o hiraeth
Gyda galar yn fy mron,
Am hen gyfaill ein cym'dogaeth —
Ein hanwylaf Dafydd John ;
Daeth i ymyl yr addewid —
Profodd haf a gaea'r byd ;
Diwyd iawn oedd ef trwy'i fywyd,
Gyda'i frodyr hoff ynghyd.

Dyn o deimlad tyner, tyner,
Beunydd ydoedd Dafydd fad ;
'Roedd ei amcan ef bob amser
Beunydd er mwyn gwneud llesad ;
'Roedd yn fuddiol gymwynhaswr,
Gwnelai dda ni waeth i pwy ;
Ac yn meddu celf amaethwr
Cyffredinol goreu'n plwy'.

Cafodd ef gynhebrwng parchus
I'r henafol fynwent brudd,
I bllth llawer o'i berth'nasau —
Yno'n tawel huno sydd ;
Ond mae'i yspryd wedi 'hedeg
I gartrefle'r saint i fyw,
I fynyddoedd anfarwoldeb -
Ac i nefoedd Cariad Duw.

BOWEN BEVAN (*Myfyr Baran*).

ETO.

Llawer ymgom gefais ganddo
O fwynhad cyn hyn ;
Teimlem ynddo wrth ymgomio
Nerth y Bywyd Gwyn.

Mab y gwir a'r sanctaidd fywyd
Ydoedd ef i gyd,
Yn ei wynfyd, yn ei adfyd
Carai'r Crist bob pryd.

Cyfaill rhinwedd ydoedd Dafydd,
Eden oedd ei gwmni hardd,
'Roedd mor dyner a'r boreuddydd
Ar ei daith trwy wlith yr ardd.

Nerthol ydoedd mewn gonestrwydd ;
Dwyfol oedd ei gred bob darn ;
'Roedd mor addfwyn a sancteiddrwydd,
Ac yn llydan iawn ei farn.

Cofiaf ef ymhlith ei frodyr
Megis pennaeth ar ei sedd ;
Aiff cymdogaeth o alarwyr
Tua'r mynydd at ei fedd.

Byw yn hir wna enw'n Cymro
Tra fo derw ar ein tir ;
Ni all ardal ei anghofio,
Ni all angeu ladd y gwir.—ALFA.

EBRILL 20, Yn Kirksville, Mo., U.S.A., John Rees Evans, yn 80 oed, gan adael dau fab a dwy ferch ar ol i alaru ei colled. Yr oedd Mr. Evans yn enedigol o Gilblaidd, ger Llanbedr ; o ochr ei fam hanai o deulu Cilgellisaf. Chwaer iddo oedd Mrs. Evans, gwraig gyntaf Mr. D. Evans sydd yn Nghilgell yn awr. Ymfudodd Mr. Evans i'r Amerig pan oddeutu 18 oed, ac ni ymwelodd a'r hen wlad byth wedi hyny. Ysgrifena ei fab, yr hwn sydd feddyg, am dano fel hyn :—"Ni fu erioed yn gyfoethog, ond teimlaf fod ei fywyd yn yr ystyr uwchaf yn llwyddiant. Gadawodd i'w blant etifeddiaeth o enw da ac adgof am weithredoedd da. Ni welais erioed well dyn. A thra mae ein calonau yn drist oherwydd ei ymadawiad, gwyddom ei bod yn dda arno ef, a gwnaiff cof anwyl am dano aros yn nghalonau lluaws o gyfeillion i'r rhai y bu yn gyfaill caredig."

EBRILL 21, yn 83 oed, Elizabeth Enoch, Rhandir, Ceinewydd, gweddw y diweddar John Enoch, Rhandir, Talgareg, gan adael dau fab, brawd, chwaer, a chylch helaeth o gyfeillion mewn hiraeth. Yr oedd yr ymadawedig yn un a berchid yn fawr ar gyfrif ei didwylledd a'i charedigrwydd. Claddwyd y Gwener canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Aman Jones, gweinidog Towyn, Ceinewydd, ac yn y fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins. "Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa."

EBRILL 21, yn 79 oed, John Williams, Maespwll, Talgareg, gan adael brawd oedranus a llawer o berthynasau a chymydogion i gwyno ei golli. Wele Eglwys Bwlchyfadfa wedi colli un arall o'i hen ffyddloniaid. Ddeng mlynedd yn ol yr oedd yma nifer luosog o hen bobl—hen bobl a'r pren almon wedi blodeuo arnynt—yn Eglwys Bwlchyfadfa ond maent wedi myn'd o un i un, a bellach nid oes ond rhyw ddau neu dri ar ol. Nid oedd John Williams yn ddyn cyhoeddus—nid oedd yn ganwr nac yn siaradwr ond eto yr oedd yn ffyddlon iawn—yn ffyddlon yn ei fynychiad o'r gwasanaeth crefyddol, yn ffyddlon fel gwrandawr, a ffyddlon fel cyfranwr. Bellach mae ei le yn wag. Hyderwn y bydd ei golli yn gymhelliad i eraill i fod yn ffyddlawn. Gweithiwr diwyd oedd yr ymadawedig, dyn trefnus a gofalus a chymydog cymwynasgar. Claddwyd yr lau canlynol yn Bwlchyfadfa gryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

EBRILL 25, Daniel Jones, Drefach House, Drovers Road, Llanbedr, yn 64 mlwydd oed. Cafodd ein cyfaill gystudd maith ond cymharol esmwyth, a gweinyddwyd arno'n dyner a gofalus, ac yn y modd goreu y medrent gan ei anwyl blant, nes iddo o'r diwedd, ac ar y dydd uchod, ddianc allan o'u gafael am yr orphwysfa dawel hwnt i'r afon. Mab ydoedd i Dan Jones, Drefach Farm, Llanwnen. Bu'r ymadawedig flyn-

yddoedd lawer yn ol, am gryn amser, yn ngwasanaeth Dr. Abel Evans, ac adnabyddid ef yn gyffredin byth oddiar hyny wrth yr enw parchus "Dan Dr." Mae'n flin iawn gan ysgrifenydd yr ychydig llinellau coffadwriaethol hyn am bellach y diweddar Daniel Jones, a chan eraill lawer, feddwl ei fod wedi myn'd i ffordd yr holl ddaear, ac nad oes gobaith am ei gyfarfod byth mwy ar y llawr. Yn ei farwolaeth collodd ei blant un o'r tadau goreu, ac er marwolaeth eu mham bu iddynt yn dad ac yn fam, a sicr yw y bydd ei goffadwriaeth byth yn wynfydedig ganddynt, a gobeithio y cant oll nerth i beidio tori ar draws traddodiadau y tadau. Collodd hefyd Eglwys Brondeifi nid yn unig un o'i haelodau henaf, ond hefyd un o'i haelodau mwyaf ffyddlon a didwyll, ac er wedi marw, mae ef eto'n llefaru. Nid oedd ef mwy na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion wedi cael yr un manteision yn moreu ei fywyd ag ieuenctyd y dydd presenol, ond yr oedd er hyny'n enwog am ei ffyddlondeb a'i ddidwylledd a'i sylw craffus yn mhob cylch yr oedd efe'n troi ynddo. Gadawodd o berthynasau agos mewn galar dwys ar ei ol dad oedranus, dwy ferch, a dau fab, a dwy chwaer a brawd, a chyfeillion lawer. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. John Davies.

Mai 1, yn 29 oed, Martha, anwyl briod Mr. David Davies, Blaencriborfach, gynt o Gwmmarch, Capel Cynon. Cafodd gystudd hir a chaled. Gadawodd briod a phedwar o blant bach i alaru eu colled ar ei hol. Y dydd Llun dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Eglwys Capel Cynon. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas ac yn yr Eglwys gan y Ficer.

Mai 5, Thomas Jones (mab Hannah Jones, Ty'rcapel, Llwynrhydowen), 34, Glanaman Road, Cwmaman, Aberdar, yn 33 oed. Er yn enedigol o Sir Aberteifi yr oedd yr ymadawedig er's blynyddoedd yn byw yn Cwmaman ac yn gweithio yn mhwll Fforchaman. Coedwr ydoedd, ac am ddeg o'r gloch y noson flaenorol (nos Sul) aeth lawr at ei waith yn llawn bywyd ac yspryd fel arfer—dywed rhai o'i gydweithwyr ei fod yn fwy llawen nag arfer—ond yn mhen rhyw ddwyawr wedi dechreu gweithio daeth cwymp sydyn a thaflwyd ei gydweithiwr i'r naill ochr i gadw ei fywyd ac yntau i'r ochr arall i golli ei fywyd—i'w golli mewn amrantiad o dan gladdfa drom o goed, ceryg a phridd. Ymdaenodd y newydd trist yn gyflym drwy yr ardal a deallwn fod nifer luosog o gydweithwyr a chyfeillion iddo yn Nghwmaman wedi derbyn y newydd gyda theimladau drylliog canys yr oedd iddo air da yn eu plith. "Ni wŷr dyn chwaith ei amser." Dyma engraifft arall o wirionedd y gosodiad. Yr Iau canlynol dygwyd ei gorff yn ol i'w gladdu yn Llwynrhydowen a chafodd gynhebrwng lluosog yn y ddau pen. Gwasanaethwyd yn Llwynrhydowen gan y Parch. E. O. Jenkins. Cydymdeimlir yn fawr a'r weddw, y ferch fach amddifad a'r fam sydd wedi ei gadael mewn galar.

"Mae'n felus meddwl wedi hyn
Cawn gwrddyd yn y nef."

Mai 12, yn 40 oed, Anne, anwyl ferch Thomas a Mary Thomas, Pantcochisaf, Talgareg, gan adael tad, mam, brodyr, chwiorydd, a nifer luosog o berthynasau a chyfeillion mewn galar. Cystudd byr ond caled a chyfyng iawn gafodd. Cymerwyd hi yn glaf dydd Mercher ac yn gynar boreu y Llun canlynol ehedodd ei hysbryd at yr hwn a'i rhoes. Mae y teulu wedi cael colled enbyd yn enwedig y fam a'r brodyr sydd gartref canys yr oedd yn ferch dda i'w mam ac yn chwaer ragorol i'w brodyr. Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth yn ei chartref. Gweithiodd yn neilldual o galed a gweithiodd heb rwgnach, ac os mai bywyd distadl, dinod oedd ei bywyd o safbwynt y byd, credwn ei fod yn fywyd gwerthfawr a chymeradwy yn ngolwg y

nef. Claddwyd y Mercher canlynol yn Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Mai 17, yn 75 oed, Elizabeth Lloyd, Cwmmarch, Llandyssul, gan adael brawd, chwaer oedranus, a nifer luosog o berthynasau mewn galar. Yr oedd Mrs. Lloyd yn aelod ffyddlon iawn yn Llwynrhydowen ac er fod afiechyd ers blynyddoedd yn ei rhwystro i bresenoli ei hun yn y gwasanaeth ar y Sul mor reolaidd ag y carai, eto daliodd ei serch at y lle yn fawr ac iach hyd y diwedd. 'Doedd dim a hoffai'n well na siarad am y Llwyn a myn'd dros yr hen amser. Teimlai anwyldeb mawr at y lle, a pha syndod—yma y magwyd hi. Dyma ei chartref crefyddol—yn Ysgol Sul a gwasanaethau crefyddol y lle cafodd ran helaeth iawn o bleser a hyfrydwch yn ei bywyd, ac yn y fynwent yn ymyl y capel y gorwedd gweddillion ei phriod hoff, a'r ddwy ferch fach fu iddi, yn nghyd ag eiddo eraill oeddent yn anwyl iawn ganddi. Fedr cynulleidfa ddim llai na theimlo'n bruddaidd pan yn colli ei hen ffyddloniaid, a rhyfedd gymaint o hen bobl mae y gynulleidfa hon wedi golli yn ddiweddar. Llawenydd yw genym i weled pobl ieuainc ffyddlon yn codi i gymeryd eu lle. Bydded i'r colledion hyn ein gwneud yn fwy egniol a ffyddlawn eto. Cydymdeimlir yn fawr a'r brawd a'r chwaer ydynt wedi eu gadael mewn galar, yn enwedig a'r chwaer, canys y mae hi wedi ei gadael yn unig iawn, a phwys blynyddoedd lawer yn gorphwys arni. Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

MANION AC HANESION.

Galwadau.—Y mae y Parch. J. Tyssul Davis, B.A., Newport, wedi derbyn galwad oddiwrth yr eglwys Undodaidd yn York, a bwriada ddechreu yn ei faes newydd ar unwaith. Hefyd, y mae y Parch. T. J. Jenkins, yn symud o Hinckley i Newchurch, a'r Parch. D. Rhoslwyn Davies, o Rawtenstall i Blackley. Dymunwn i'r oll lwyddiant mawr yn eu gwahanol gylchoedd.

Cymanfa Gerddorol Morganwg.—Deallwn fod yr uchod wedi ei chynal yn ddiweddar yn nghapel Gomer, yn Abertawe, trwy ganiatad caredig y gweinidog a'r gynulleidfa. Yr arweinydd ydoedd Mr. J. R. Evans, Cefn, a chlywsom iddi fod yn gymanfa lwyddianus yn mhob ystyr. Trueni na fuasai rhywun wedi ymgymeryd ag ysgrifenu gair am dani.

Cymanfa Ganu Eglwysi Cerediglon.—Fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr Yr Ymofynydd bydd y gymanfa eleni yn cael ei chynal yn Llwynrhydowen, dydd Llun, Mehefin 9fed. Mae cynulleidfa y lle yn trefnu i gael gwasanaeth crefyddol yn yr hwyr. Y pregethwr fydd y Parch. D. G. Rees, Gellionen. Mae un o aelodau y gynulleidfa wedi addaw ymgymeryd a'r gorchwyl o barotoi bwyd am bris rhesymol drwy y dydd, ac amcenir i'r bwyd gael ei barotoi yn Ysgoldy Pontshan.

Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Nos Lun, Chwefror y 24ain, cynhaliwyd cyfarfod i anrhegu y Parch. J. Glynne Davies ar ei ymadawiad i Banbridge, Iwerddon. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. Levi Phillips, Llewelyn St. Cyfeiriodd at alluoedd Mr. Davies

fel pregethwr, a gobeithiai y cawsai hir oes i barhau i gario'r gwaith da yn mlaen yu ei gylch newydd. Cyflwynwyd yr anrheg, sef *Roll Top Desk*, gan Mrs. Levi Phillips, ar ran yr eglwys fel arwydd o'u parch a'u hedmygedd o hono, ac yn datgan eu dymuniadau goreu ar iddo gael pob llwyddiant yn Banbridge. Adroddwyd penillion pwrpasol gan Mrs. Morgan Morgans, a chafwyd areithiau gan Mrs. Willie Jones; y Mri. John Thomas, D. R. Llewelyn, W. M. Llewelyn, a Walter Llewelyn (Bwllfa), J. S. Evans, D. R. Griffiths, Taliesin Griffiths, Jack Jones (Cwmdar), Richard Jones, a Gwilym Griffiths. Darllenodd Mr. Griffiths lythyrau oddiwrth bersonau oeddent yn methu bod yn bresenol. Atebodd Mr. Davies mewn araeth effeithiol iawn. Diolchai yn gynhes i'r eglwys am y rhodd werthfawr ac am ei dymuniadau da. Gobeithiai y byddai y gwaith da i gael ei gario yn mlaen yn yr Hen-Dy-Cwrdd am flynyddau lawer eto. Gwnaeth lawer o gyfeillion yn Aberdar, ac yr oedd yn flin ganddo i ymadael a hwy. Byddai adgofion melus ganddo am ei arosiad yn eu plith. Yr oedd bob amser wedi ceisio gwneyd ei oreu i gario allan waith y weinidogaeth, ac yr oedd wedi cael pob cynorthwy oddiwrthynt. Ysgrifenyddion y mudiad oedd Meistri Willie Jones a Tal Griffiths.

CRIBYN.—Cynhaliwyd Gwledd Dê mewn cysylltiad ag Ysgol Sul y lle uchod dydd Mawrth, y 27ain o Fai. Rhoddwyd y tê a'r danteithion gan Mr. a Mrs. Jones, Frongelyn, a Mr. a Mrs. Jenkins, Llechwedd-ddeiriuchaf, ac ni arbedasant na thraul na thrafferth i wneyd y wledd yn llwyddiant. Daeth nifer luosog o blant a phobl mewn oed yn nghyd yn ystod y prydnawn, ac yr oedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o'r darpariaethau. Haedda'r ddau deulu ein diolch gwresocaf am eu caredigrwydd a'u teimlad da at yr achos. Yn yr hwyr, cawd Cyfarfod Adloniadol llwyddianus, dan lywyddiaeth Mr. Jones, Frongelyn. Awd trwy raglen faith o adroddiadau, dadleuon a chanu, yn nghyd a drama o'r enw "Y ffordd i drafod gwr," gan barti lleol. Yr oedd y cyfarfod yn un a "myn'd" ynddo o'r dechreu i'r diwedd.

ABERYSTWYTH.—Dydd Sul, y 25ain o Fai cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y mudiad Undodaidd yma. Ar y fath achlysur mae'n arferiad cyffredin i wahodd rhyw bregethwr dieithr i draddodi'r genadwri, ac felly y bu i ninnau roddi gwahoddiad i Mr. Ben Davies, o Goleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, i ddod i'n hanerch ar yr amgylchiad uchod. Er yn ddieithr mewn un ystyr, eto mae Mr. Davies yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o honom erbyn hyn, ac edrychem yn mlaen gyda phleser at ei ymweliad, gan lwyr gredu y caem ganddo rywbeth gwerth i wrando arno. Ni siomwyd ni ychwaith. Cafwyd dwy bregeth rymus ganddo. Ar ol cwrdd y boreu cafwyd cyfarfod i drin ychydig faterion perthynol i'r gynulleidfa. Dewiswyd Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Arolygydd dan y Cynghor Amaethyddol dros Gymru, a mab i'r Parch. R. C. Jones, Llanbedr, i'r gadair, a chyda llaw, caniataer ini ddweyd yma mor falch ydym i'w roesawu ef a'i briod hawddgar i'n plith. Y mater mwyaf pwysig yn y cyfarfod hwn oedd derbyn adroddiad y Trysorydd, yr hwn ddangosai fod y ddeadell fechan sydd yn cydymgynull yn yr Heol Newydd, wedi casglu ar y Sul a thrwy gyfraniadau arbenig yn agos i £44 yn ystod y flwyddyn ddiweddaf (hyd ddiwedd Ebrill) fod oddeutu £20 mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn, ac y byddai oddeutu £8 yn ngweddill wedi talu'r treuliau am baentio'r capel oddiallan. Mae'n bossibl ei fod wedi ei gofnodi o'r blaen, ond mae'n werth ei ddweyd eto, nad ydym yn cael un cynorthwy oddiwrth unrhyw gymdeithas i gynal y gwasanaeth yma, ond ein bod yn hytrach, heblaw gwneyd hyny, yn cyfranu rhyw ychydig at amryw achosion da ereill. Ni chofnodwn hyn mewn unrhyw yspryd ymffrost

—yn mhell o fod, ond yn unig fel dangoseg o'r hyn all ychydig bersonau wneyd pan o wir ddifrif. Ailetholwyd y Trysorydd a'r Ysgrifenydd am y flwyddyn hon, a chyda'r diolchiadau arferol dygwyd y cyfarfod i derfyn. Mae'n bleser dweyd fod yr achos yma yn fwy llewyrchus nag y bu er ys tro, er y gallasai fod yn fwy fyth felly pe gwnai pob un sy'n coleddu'r ffydd Undodaidd eu dyledswydd tuag ato. "Aed y fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref." Croesawir ymwelwyr o bob man.—D. J. D.

GELLIONEN A'R GRAIG.—Y Llungwyn, yn Ysgoldy newydd y Graig, cynhaliodd Ysgol Sul y lle ei Gwledd Dê flynyddol. Er i'r hin droi yn wlyb cafwyd nifer luosog iawn o ddeiliaid yr ysgol i fwynhau y bara brith a'r tê. Bydded y diolch mwyaf cynes i bawb fuont yn gweinyddu i wneud y cyfarfyddiad yn un mor hapus.

Da genym ddweyd wrth y darllenwyr, fod ein bugail gofalus, y Parch. D. G. Rees, wedi dychwelyd o Wlad Canaan, ac wedi ymaflyd yn ei waith eto fel cawr. Dyry ini, yn awr ac eilwaith, bwt o hanes ei daith bell a dyddorol. Mr. Rees, tybed fod "*more to follow*."

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol yr uchod yn y Cribyn, ddyddiau Iau a Gwener, Awst 7 a 8. Ymddengys manylion pellach yn ein rhifyn nesaf. Taer erfyniwn ar fod ein heglwysi yn gwneud eu casgliadau mor fuan ag y byddo modd, a'r tanysgrifwyr hwythau i ddanfon eu cyfraniadau yn ddioedi i'r Trysorydd, Mr. D. Martin Jones, Gwyon Castle, Llandyssul.

LLANDYSSUL.—Dydd Mercher, Mai 28, cynhaliodd eglwys y Graig Nodachfa (*Bazaar*) lwyddianus iawn, gyda'r amcan o ychwanegu at Drysorfa Adeiladu Ysgoldy newydd at wasanaeth yr Ysgol Sul, &c. Cafwyd araeth bwrpasol gan y cadeirydd – Thomas Thomas, Ysw., Cyfreithiwr, ac yna agorwyd y *Bazaar* gan Miss Marles Thomas, Aberystwyth, yn absenoldeb Major Cass, D.S.O., Uchel Sirydd, Ceredigion, yr hwn oedd yn gweini ar Farnwr y Frawdlys y dydd hwnw. Daeth torf fawr yn nghyd, o bell ac agos, ac erbyn yr hwyr yr oedd bron yr oll wedi eu gwerthu allan, a gwnaed swm sylweddol, yn mhell uwchlaw ein disgwyliadau goreu. Y mae ein diolchgarwch yn ddyledus, yn benaf, i'r *Sewing Circle* fu'n cynllunio a llafurio mor ddiwyd, ac i'r cyfeillion eraill tufewn a thu allan yr eglwys am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad mewn llawer ffordd. Derbynied pawb o'r cyfryw ein diolchgarwch llwyraf.

Cynhaliwyd Cymanfa Flynyddol Ysgolion Sul perthynol i Capelyfadfa, Llwyn, Pantdefaid, a'r Graig, Llandyssul, yn nghapel yr olaf, dydd Sul, Mai 18. Cafwyd tywydd dymunol, a daeth cynulliadau mawrion yn nghyd. Holwyd yr ysgolion gan y Parch. Arthur Thomas. Arweiniwyd y canu gan Mr. Tom Davies, Llwyn. Chwareuwyd yr *Organ* gan Mrs. Arthur Thomas a Miss Annie Mary Evans, a gwnaeth pawb eu rhan yn frwdfrydig iawn. Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. T. G. Thomas, a phregethwyd yn bwrpasol iawn gan y Parch. E. O. Jenkins. Rhoddwyd croesaw cynes iawn i'r gwahanol ysgolion gan eglwys y Graig, a diolchwyd iddynt am eu caredigrwydd ar ddiwedd y gwasanaeth. Y mae y sefydliad hwn yn barod wedi gwneud lles mawr i'n Hysgolion Sul. Hir y parhao yn ei boblogrwydd ac yn ei ddylanwad da.

CASGLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Graig, Trebanos, £1 os. 7c.; Pantdefaid, 16s.6c.; Rhydygwin, 10s. 2½c.; Alltyblaca, 5s.; Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, 5s.; Capelyfadfa, 5s.

Y "CHRISTIAN LIFE." Nid oes odid nemawr i Undodwr nad ydyw wedi gweled rhifyn Coffadwriaethol o'r *Christian Life*, yr hwn gyhoeddwyd Mai 10. Y mae yn rhifyn arddechog yn mhob ystyr, ac yn adlewyrchu clod nid bychan ar y Golygydd, y Parch. D. Delta Evans.

Cymro twymgalon ydyw Mr. Evans, ac y mae yn awr wedi eistedd yn y gadair olygyddol am tua un-flynedd-ar-ddeg. Llongyfarchwn ef yn galonog iawn.

YR oedd yna ddiacon ffyddlon yn eglwys y Parch. Joseph Harris (Gomer); yn mynychu'r addoliad yn rheolaidd, ac heb fyth anghofio'r Ysgol Sul; ond fe bwdodd! A wyddoch chi beth yw pwdu, gyfeillion? Efe a bwdodd. A'r Sul canlynol yr oedd ei le yn y capel yn wag drwy'r dydd. Dranoeth aeth Mr. Harris i ymweled ag ef. "B'le buoch chi ddoe drwy'r dydd? Yr oeddwn i yn ofni eich bod yn glaf." "O, mi dreuliais y dydd ddoe ar lan y môr, yn gwylied symudiad y tonau ac yn gwrando eu cân o fawl i Dduw." "Chwi aethoch adref i giniaw, dybia i." "Do, mi es adref i giniaw." "Wel, gadewch i mi ddweyd wrthych —Yr oedd y môr yn ei le, ond nid oeddych chwi!"—*Y Parch. Dr. Gomer Lewis yn y Gymanfa Ganu yn Abertawe.*

YR oedd y Cadeirydd (y Parch. D. G. Rees) wedi ceisio ei gorecto ef yn mherthynas i ryw *ddate*. Nid oedd y Bedyddwyr yn gosod cymaint o bwys ar y *dates* Gosodent fwy o bwys ar *ideas*. Fe fedr yr Annibynwyr, y Wesleyaid, &c., nodi *date* eu cychwyniad. Ni fedr y Bedyddwyr roi *date* eu cychwyniad hwy; ond gwyddant eu bod yn myned yn ol, o leiaf, mor bell ag afon yr Iorddonen. —*Dr. Gomer Lewis yn Nghymanfa Ganu yr Undodiaid yn Abertawe.*

GWYL "MAM."—Dydd i lincio dyn wrth ei gartref. Mae'r amcan yn deilwng a gall fod yn ffrwyth o les. Dywedir iddo gael ei gychwyn gan Miss Anna Jarvis, a'i fod wedi profi yn llwyddiant yn Canada, Awstralia, a Phenrhyn Gobaith Da. Y bwriad yw i adgofio dynion am eu mamau a dylanwad eu cartref. Awgrymir i bob un a fyno gadw'r dydd i wisgo blodeuyn gwyn fel *badge*, i ysgrifenu at ei fam, neu fyned i weled ei fam; neu os yw wedi marw i drefnu yn rhywfodd i gael blodau wedi eu gosod ar ei bedd. Un pwynt arall y gosodir pwys arno—eu bod yn rhoi ychydig funydau i hunan-ymholiad. Gosodir pwys mawr ar ysgrifenu llythyr; dyna lle mae perygl pobl ieuainc wedi gadael cartref.—"DYDD GWYL MAM"—Mai 18.

TLYSNI MEHEFIN.

Hyfryd gwel'd Mehefin,
Yn dilladu'r glyn;
Siriol yw ei wenau,
Ar y didòn lyn;
Deffro gwull y dyffryn,
Wna ei fwynber naws;
Chwery ar delynau,
Eu hawelon maws.

Hyfryd gwel'd Mehefin,
A'i belydrau pêr;
Tlysni difrycheulyd,
A groesawa'r ser;
Hafaidd yw ei fantell,
Croesaw, aer yr Haf!
Saig a ddug dan ganu,
I adloni'r claf.

Hyfryd gwel'd Mehefin
A'i genhadon hael;
Cerdda rhwng y llwyni,
Gan gusanu'r dail;
Rhodia fin afonydd,
Erys gylch y gwŷdd;
Yni a siriolodeb,
Yn ei gwmni sydd.

Hyfryd gwel'd Mehefin
A'i ffurfafen dlos;
Gwrendy'r dòn yn canu,
Cerddi yn y nos;
Ar y tywod euraidd,
Rhodia'r macwy mâd,
Rhwng y creigiau llwydion,
Dawnsia mewn mwynhad.

JOHN EVANS (*Tywi*).

Barry.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

An intensely human and vividly realistic Novel depicting Life, Thought, and Character in the "Land of Religion and Song."

TO BE PUBLISHED SHORTLY, PRICE 6S.

"DANIEL EVELYN, HERETIC."

A Story which contains less fiction than fact.

By CADVAN RHYS (Author 'The Welsh Jew,' 'Poetlets & Bardlings,' &c.

Orders received by J. D. Lewis, "Yr Ymofynydd" Office, Llandyssul.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing —— food for everybody. ——

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq, M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

Authorised Capital ..	£22,200,000	Subscribed Capital ..	£19,148,340
Paid up Capital ..	£3,989,237	Reserve Fund ..	£3,390,313
Deposits ..	£83,000,000.		

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.